

## Asesiadau ar gyfer Gofalwyr

### Dyletswydd

Mae awdurdod lleol yn gorfod cynnig asesiad i:

- Unrhyw ofalwr pan fydd hi'n ymddangos i awdurdod lleol fod y gofalwr hynny o bosib angen cymorth
- Rhaid i awdurdod lleol asesu a yw'r gofalwr angen cymorth (neu'n debygol o angen cymorth yn y dyfodol) – ac os felly, beth y mae'r anghenion yn debygol o fod

Mae'r ddyletswydd yn weithredol os yw'n ymddangos i awdurdod lleol bod gofalwr angen cymorth. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol beth bynnag yw barn yr awdurdod lleol am lefel y cymorth sydd angen ar y gofalwr neu'r adnoddau cyllidol sydd gan y gofalwr neu'r person sydd yn derbyn y gofal.

### Beth sydd angen ei gynnwys mewn asesiad

Rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o ba mor abl a bodlon yw'r gofalwr i ddarparu gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu cyflawni o ran eu hunain, ac os yw'r gofalwr yn blentyn, y canlyniadau y mae'r person sydd â chyfrifoldeb rhianta am y plentyn am gyflawni ar ran y plentyn, a sut y gall cymorth, gwasanaethau ataliol neu ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau yma.

Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y gofalwr yn yr asesiad, ynghyd â'r person sydd yn mynd i dderbyn y gofal os yn bosib.

Rhaid i'r asesiad ystyried hefyd a yw'r gofalwr am weithio ac a ydynt yn cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, hyfforddi neu hamdden.

Rhaid i'r asesiad hefyd gynnwys:

- Y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu cyflawni
- Sut y gall cymorth, gwasanaethau ataliol neu darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau
- Ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio
- Ystyried a yw'r gofalwr yn cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, hyfforddi neu hamdden.

## Cymesuredd

Dylai'r ymarferydd gynnal asesiad sydd yn gymesur i anghenion ac amgylchiadau ond dylai asesiad o leiaf gofnodi'r data craidd ac ystyried pum elfen er mwyn pennu cymhwysedd. (Serch hynny, mae'r rheidrwydd i gwblhau'r data craidd ond yn berthnasol pan fydd anghenion unigolyn yn cael eu hystyried yn gymwys a bod angen o'r cynllun gofal a thriniaeth neu gynllun cymorth yn sgil hynny).

## Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Bydd y broses asesu yn aml yn dechrau pan fydd person yn dechrau derbyn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Ni ddylid cyfyngu mynediad at asesiad drwy'r gwasanaeth yma'n unig.

## Proses Asesu

Dylai'r broses asesu fod yn seiliedig ar yr egwyddor o gyd-gynhyrchu a sicrhau ei bod yn cynnwys perthynas lle y mae'r ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer o gynllunio a darparu cymorth gyda'i gilydd, a chydabod bod yr holl bartneriaid yn meddu ar rôl hanfodol er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau personol sydd wedi eu nodi.

Efallai bod asesiad yn medru dod i'r casgliad bod angen asesiad mwy cynhwysfawr os yw'r anghenion brys wedi eu diwallu ac mae modd cynnal asesiad pellach gan ymarferydd unigol sydd yn meddu ar wybodaeth o adnoddau eraill.

Fel arfer, os bydd angen asesiad mwy cynhwysfawr, efallai bydd angen asesiad o anghenion gofal a chymorth fel rhywbeth atodol ar y data sydd ei angen yn yr asesiad cenedlaethol a'r offeryn cymhwyster.

Ni ddylai'r angen am asesiad mwy arbenigol atal neu oedi gwasanaethau priodol rhag cael eu darparu.

Efallai y bydd awdurdod lleol am gyfuno asesiad person gydag asesiad anghenion o'i ofalwr os yw'n fuddiol i wneud hyn. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol ond gwneud hyn os ydynt wedi derbyn caniatâd y bobl yma.

Er mwyn osgoi bod asesiadau gwahanol yn cael eu cynnal o dan ddeddfwriaeth wahanol, gall awdurdod lleol gynnal asesiad anghenion o dan y Ddeddf ar yr un pryd â chynnal asesiad o dan ddeddfwriaeth arall neu ar yr un pryd â bod unrhyw gorff yn cynnal asesiad o dan unrhyw ddeddf arall. Yn y fath achosion, gall yr awdurdod lleol gynnal yr asesiad ar ran neu ar y cyd gyda'r corff arall. Yn yr achosion hynny lle y mae yna gorff arall wedi trefnu bod yr asesiad yn cael ei gynnal ar y cyd gyda pherson arall, gall yr awdurdod lleol gynnal yr asesiad arall ar y cyd gyda'r corff a'r person hwnnw.

Am arweiniad mwy manwl ar asesiadau, mae Gofalwyr Cymru wedi datblygu taflen ffeithiau gwych o'r enw Asesiadau: Canllaw ar gael Asesiad yng Nghymru o fis Ebrill 2016. Mae ar gael yma:

<https://www.carersuk.org/files/section/4922/taflen-ffeithiau-w1020-asesiadau.pdf>